

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun yr 8fed o Orffennaf 2024 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng. Emrys Thompson, Robert D Jones, a Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd)
Danfonwyd ein cofion cynhesaf at Cyng. Bethan Lawton gan ddymuno gwellhad llwyr a buan iddi.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Fehefin** ar gynnig Cyng. Miriam Webb a'l eilio gan Cyng Gwynedd Roberts..

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau.**

Yng nghyswllt gwneud llwybr ar y cae chwarae, roedd pris arall i law gan Playquest, Flint am £2,375.00. Ond offer gwahanol oedd hwn, yn cael ei osod ar laswellt, ac heb le wedi ei baratoi iddo – felly byddai ymyl iddo. Penderfynwyd gadael hyn am y tro, a gweld os byddai cyswllt pellach gan unrhywun yr oedd hyn ei angen.

- b) **Rheilffordd Talyllyn** – yng nghyswllt y prosiect wagen lechi, darlennodd y Clerc y diweddariad gan Anna Lewis o Gyngor Gwynedd. Penderfynwyd gwahodd Anna atom l'r cyfarfod nesaf ar y 9fed o Fedi.

- c) **Coeden yn difrodi wal** – nid oedd diweddariad.

- d) **Archwiliad y cae chwarae gan ROSPA** – roedd cadarnhad fod yr Archwiliad Blynnyddol wedi cael ei wneud ar y 25ain o Fehefin, ac roedd yr adroddiad wedi ei ddsbarthu l'r holl Gynghorwyr ymlaenllaw. Trafodwyd y cynnwys, ac nad oedd dim angen ei wneud ar frys, ond bod angen sylw l rai pethau. Gwelwyd y gellir trafod ymhellach y tro nesaf, ac yn y cyfamser byddai'r Clerc yn trafod gyda'r Cyng Emrys Thompson.

Roedd y Clerc wedi gadael nifer o negeseuon gyda Luke Genders a oedd l fod i gwblhau y gwaith paentio, ac roedd cryn siom fod hyn yn parhau heb ei wneud.

5. **Materion Cynllunio**

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw faterion ers y cyfarfod diwethaf.

6. **Materion Cyllid.**

- a) Cytunwyd, ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'l eilio gan Cyng Steve Lewis i dalu y canlynol;

Anfoneb Archwilio Cymru am archwilio cyfrifon 2020/21 - £452.00

Anfoneb Archwilio Cymru am archwilio cyfrifon 2021/22 - £505.00

- b) Cytunwyd, ar gynnig Cyng Eleri Puw a'l eilio gan Cyng Steve Lewis i dalu

Cydnabyddiaeth y Clerc am y chwarter cyntaf £400.19 ynghyd a HMRC £100.

- c) Cytunwyd, ar gynnig Cyng Eleri Puw a'l eilio gan Cyng Steve Lewis i **dal**u anfoneb **ROSPA am £98.40.**

d) **Nodwyd Cyfrifon 2023-24, a chadarnhawyd fod y** cyfan wedi cael ei ddanfon i'r Archwilydd allanol. Nodwyd yr hysbysiad gyhoeddus oedd ar yr hysbysfwrdd a'r wefan. Atgoffwyd pawb fod hwn yn archwiliad llawn eleni.

e) **Nodwyd anfoneb Arwyn Davies am dorri gwair mynwentydd/ cae chwarae**, sef £680 am dorri ym mis Mehefin, ynghyd a thorri gwrych yn Llanfihangel y Pennant am £200 . Yng ngwyneb gwybodaeth i law, roedd angen cadarnhad fod y gwaith wedi ei orffen, ond ar gynnig Cyng Steve Lewis a'l eilio gan Cyng Eleri Puw, cytunwyd i dalu y £880 oedd yn ddyledus ar yr amod fod pob dim yn iawn.

7. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)

Roedd ymddiheuriad gan Cyng Beth Lawton, ac roedd pawb yn cofio yn gynnes ati.

8. Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.

Cafwyd adroddiad gan Cyng Elwyn Evans am Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol Un Llais Cymru ar yr 21ain o Fehefin, a oedd yn cynnwys adroddiadau am Bwyllgorau Cyllid a Pholisi. Adroddodd am y gwaith I wella delwedd gyhoeddus Un Llais Cymru , gwella y safle we, materion llywodraethiant a chynrychiolaeth pwyllgorau.

9.Gohebiaeth.

a) **Gohebiaeth mynwent Eglwys Llanfihangel y Pennant**, - roedd e-bost pellach gan Helen Edwards (cyfeiriad yn Llundain) yn gofyn caniatad i gladdu llwch eu diweddar rieni mewn bedd newydd yn Llanfihangel y Pennant. Roedd hyn i ddigwydd ar Ddydd Sadwrn 14eg o Fedi. Roedd angen danfon llun o'r safle, ac ymateb ar nifer o bwyntiau a godwyd o ran maint y gasged, a'r garreg fedd. Byddai y Clerc yn ymateb ac yn cadarnhau y byddai'r Cyngor yn trefnu i'r bedd gael ei agor.

b) Roedd gwybodaeth gan **Un Llais Cymru am gyrsiau yn Gorffennaf, Awst a Medi**, a byddai'r Clerc y neu dosbarthu a gwneud y trefniadau fel bo'r angen.

10. Unrhyw fater arall

Roedd y pryder yn parhau nad oedd y twll/sianel ar y ffordd ger Dolffanog wedi ei ddatys. Byddai y Clerc yn atgoffa yr Adran Briffyrdd eto.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS LUN 9fed Medi 2024 , 7.00y.h.

Minutes of a Council meeting held on Monday 8th July 2024 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllrs. Elwyn Evans, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans. Apologies were received from Cllr. Emrys Thompson, Robert D Jones, and Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council)

We sent our warmest regards to Cllr. Bethan Lawton wishing her a full and speedy recovery.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on a matter on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 10th of June were confirmed on the proposal of Cllr. Miriam Webb seconded by Cllr Gwynedd Roberts..

4. Matters arising

a) Highways/pathways issues.

In relation to making a path on the playing field, another price was received from Playquest, Flint for £2,375.00. But this was different material, being placed on grass, and without a place prepared for it - so it would have an edge. It was decided to leave this for now, and see if there was further contact from anyone who needed this.

b) Tallylyn Railway - in relation to the slate wagon project, the Clerk read the update from Anna Lewis from Gwynedd Council. It was decided to invite Anna to the next meeting on the 9th of September.

c) Tree damaging a wall - there was no update.

d) Inspection of the playing field by ROSPA - it was confirmed that the Annual Inspection had been carried out on the 25th of June, and the report had been distributed to all the Councilors in advance. The content was discussed, and that nothing needed to be done urgently, but that some things needed attention. It was seen that it can be discussed further next time, and in the meantime the Clerk would discuss with Cllr Emrys Thompson.

The Clerk had left a number of messages with Luke Genders who was supposed to complete the painting work, and there was considerable disappointment that this remained undone.

5. Planning Matters

It was confirmed that there were no issues since the last meeting.

6. Finance matters

a) Agreed, on the motion of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Steve Lewis To pay the following;

Audit Wales invoice for audit of accounts 2020/21 - £452.00

Audit Wales invoice for audit of accounts 2021/22 - £505.00

b) Agreed, on the motion of Cllr Eleri Puw and seconded by Cllr Steve Lewis to pay Clerk's remuneration for the first quarter £400.01 plus HMRC £100.

c) Agreed, on the proposal of Cllr Eleri Puw and seconded by Cllr Steve Lewis to pay the ROSPA invoice for £98.40.

d) The 2023-24 Accounts were noted, and it was confirmed that all had been sent to the external Auditor. The public notice that was on the notice board and the website was noted. Everyone was reminded that this is a full inspection this year.

e) Arwyn Davies' invoice was noted for cutting grass in cemeteries/playgrounds, namely £680 for cutting in June, together with

cutting a hedge in Llanfihangel y Pennant for £200. In the face of information at hand, it was necessary to confirm that the work had been finished, but on the proposal of Cllr Steve Lewis and Seconded by Cllr Eleri Puw, it was agreed to pay the £880 that was due provided that everything was in order.

7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

There was an apology from Cllr Beth Lawton, and everyone remembered to her warmly.

8. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

There was a report from Cllr Elwyn Evans about the National Executive Committee of One Voice Wales on the 21st of June, which included reports about Finance and Policy Committees. He reported on the work To improve the public image of Un Llais Cymru, improving the website, governance issues and committee representation.

9. Correspondence.

a) Llanfihangel y Pennant Church cemetery correspondence, - a further email from Helen Edwards (address in London) requested permission to bury the ashes of their late parents in a new grave in Llanfihangel y Pennant. This was to happen on Saturday 14th of September. A photo of the site needed to be delivered, and a response to a number of points raised regarding the size of the casket, and the headstone. The Clerk would respond and confirm that the Council would arrange for the grave to be opened.

b) Un Llais Cymru had information about courses in July, August and September, and the Clerk would distribute and make the arrangements as needed.

10. Any other matter

The concern remained that the hole/channel on the road near Dolffanog had not been fixed. The Clerk would remind the Highways Department again.

DATE OF NEXT MEETING; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN MONDAY 9th
September 2024, 7.00 p.m.